

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A40  
(Stryd Lydan, Llanymddyfri, Sir  
Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau  
a Therfyn Cyflymder 20 Mya Dros  
Dro) 2017

The A40 Trunk Road (Broad Street,  
Llandoverly, Carmarthenshire)  
(Temporary Prohibition of Vehicles  
& 20 mph Speed Limit) Order  
2017

*Gwnaed* 31 Hydref 2017

*Made* 31 October 2017

*Yn dod i rym* 6 Tachwedd 2017

*Coming into force* 6 November 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the A40 Raglan to Llandoverly Trunk Road, are satisfied that traffic in specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**Title, Interpretation and Commencement**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Tachwedd 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Stryd Lydan, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 20 Mya Dros Dro) 2017.

1. This Order comes into force on 6 November 2017 and its title is The A40 Trunk Road (Broad Street, Llandoverly, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles & 20 mph Speed Limit) Order 2017.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

- (a) any vehicle being used by the emergency services; and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd ethygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 6 Tachwedd 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw'r darn o gefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd Dosbarth I yr A4069 hyd at ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain i faes parcio Llanymddyfri;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwennw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwennw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad a Chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

### Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

### Cymhwyso

6.—(1) Ni fydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad yn

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Raglan to Llandovery trunk road at Llandovery in the County of Carmarthenshire that extends from its junction with the Class I road A4069 to its junction with the road leading to Llandovery car park;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 00:01 hours on 6 November 2017 and ending when the temporary traffic signs have been permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

### Prohibition and Restriction

3. No person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

4. No person shall ride, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road.

### Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in article 2 are suspended during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

### Application

6.—(1) The prohibition and restriction in articles 3 and 4 shall apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

31 Hydref 2017

*Nina Ley*  
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

### **Duration of this Order**

7. The maximum duration for this Order shall be 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated the

31 October 2017

*Nina Ley*  
Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (STRYD LYDAN, LLANYMDDYFRI, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU A THERFYN CYFLYMDER 20 MYA DROS DRO) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn Stryd Lydan, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau'r rheini y mae arnynt angen mynediad i eiddo a'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd Dosbarth I yr A4069 hyd at ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain i faes parcio Llanymddyfri.

Y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd tua'r dwyrain yw ar hyd yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain i Lanfair-ym-Muallt a'r A470 tua'r de yn gyffredinol i Aberhonddu i ailymuno â'r A40 wrth Gylchfan Brynich, Aberhonddu: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig trwodd sy'n teithio tua'r gorllewin.

Sicrheir mynediad i eiddo ar hyd y darn a fydd ar gau ond gosodir terfyn cyflymder 20 mya dros dro ar y darn hwnnw o'r A40 pan gaiff ei ddefnyddio gan draffig lleol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol ynghylch eu hyd a'u lled, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 6 Tachwedd 2017 ac yn parhau tan 1 Ebrill 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2017).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**THE A40 TRUNK ROAD (BROAD STREET, LLANDOVERY, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & 20 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Broad Street, Llandovery, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, those requiring access to properties and those being used for the works, from proceeding on the length of the A40 that extends from its junction with the Class I road A4069 to its junction with the road leading to Llandovery car park.

The alternative route for eastbound through traffic is via the north-eastbound A483 to Builth Wells and the generally southbound A470 to Brecon to rejoin the A40 at Brynich Roundabout, Brecon: vice versa for westbound through traffic.

Access will be maintained to properties along the length of the closure but a temporary 20 mph speed limit will be imposed on that length of the A40 when being used by local traffic.

The temporary prohibition and restriction, the extent of which will be signed accordingly, are expected to come into force at 00:01 hours on 6 November 2017 and remain until 1 April 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2017).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government